



---

## **Gofynion Cyfleu S4C**

Mawrth 2016

---

## CYNNWYS

1. Cyfleu Rhaglenni ar dâp ac yn fyw
2. Cyfleu Gwybodaeth am y rhaglen (PAC/gwaith papur)
3. Gwybodaeth sydd ei angen cyn neu wrth gyfleu'r tâp
4. Gwybodaeth am y rhaglen i'w gyfleu yn fuan ar ôl y tâp
5. Cyfleu Dogfennau ategol
6. Cyfleu yn hwyr
7. Cysylltiadau

## **Cyfleu – Cyffredinol**

Mae'r holl wybodaeth am ofynion cyfleu S4C i'w canfod yn y cytundeb comisiynu/trwydded ddarlledu a dylid cyfeirio at y cytundeb er mwyn cadarnhau union ofynion rhaglenni a chyfresi unigol. Mae'r ddogfen hon yn cynnig ychydig o gefndir ac arweiniad pellach i rai o'r prif elfennau ac i esbonio pwysigrwydd cadw at y dyddiadau a'r gofynion cyfleu.

Mae Canllawiau Brand S4C yn rhoi mwy o wybodaeth am ofynion gweledol rhaglenni a deunydd hyrwyddo megis lluniau a chlipiau.

### **1. Cyfleu Rhaglenni ar tâp ac yn fyw**

#### Safon dechnegol

Er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion technegol S4C wrth gyfleu rhaglen dylech ddarllen y ddogfen 'Gofynion Technegol ar gyfer Rhaglenni a Gomisiynwyd a gyflenwir i S4C' ('Gofynion Technegol S4C'). Mae copi o'r fersiwn gyfredol i'w gweld ar Safle'r Cynhyrchwyr ar wefan S4C.

[http://www.s4c.cymru/media/media\\_assets/Safonau Technegol Cyfleu Rhaglenni Tel edu i S4C.pdf](http://www.s4c.cymru/media/media_assets/Safonau_Technegol_Cyfleu_Rhaglenni_Tel_edu_i_S4C.pdf)

#### Dyddiad cyfleu

Bydd dyddiad cyfleu'r tâp wedi ei nodi yn y cytundeb. Disgwylir i bob rhaglen gyrraedd cyn neu ar y 'Dyddiad Cyfleu' ac os yn berthnasol erbyn yr amser a nodir yn y cytundeb

Mae'r dyddiad cyfleu sydd yn y cytundeb wedi ei bennu er mwyn sicrhau bod amser digonol i wneud y trefniadau sydd eu hangen er mwyn amserlennu, hyrwyddo a darlledu'r rhaglen yn y modd mwyaf effeithiol. Mae methu cyfleu ar y dyddiad y disgwylir y rhaglen yn golygu gorfod ail wneud trefniadau ac yn golygu nad yw amser staff yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.

Gofynnwn i chi gyfeirio pob cais i newid dyddiad cyfleu rhaglen at Rachel Evans yn yr adran gynllunio trwy e-bost ([rachel.evans@s4c.cymru](mailto:rachel.evans@s4c.cymru)), gan gopïo eich comisiynydd perthnasol. Bydd Rachel neu aelod o'r tîm wedyn yn ymateb ar e-bost a chadarnhau a fydd y newid yn bosib ai peidio. Bydd hyn yn sicrhau bod y cwmni cynhyrchu ac S4C yn glir pryd bydd disgwyl i'r tâp gael ei gyfleu i S4C.

#### Cywirdeb

Mae gorfod anfon tapiau yn ôl yn creu anawsterau ac yn faich gweinyddol i'r cwmni cynhyrchu ac i S4C. Dylai rhaglenni gyrraedd yn barod i'w darlledu heb fod angen iddynt gael eu dychwelyd at y cwmni yn ddiweddarach er enghraifft, er mwyn cywiro gwallau sillafu, ailosod penawdau neu sicrhau hawliau sydd fod wedi eu clirio. Mae cofnod yn cael ei gadw o bob achlysur lle y mae tâp yn cael ei ddychwelyd ac adroddiad misol yn cael ei lunio ar gyfer y Cyfarwyddwr Cynnwys a Darlledu.

### **2. Cyfleu Gwybodaeth am y rhaglen**

#### System PAC S4C

Fel rhan o'r deunydd cyfleu mae gofyn i gwmnïau ddarparu gwybodaeth am y rhaglen drwy system PAC S4C. Mae'r system a'r ffurflenni perthnasol i'w canfod drwy ddilyn y linc hon <http://pac.s4c.cymru>. Bydd angen cysylltu ag Adran Materion Busnes S4C yn y lle cyntaf er mwyn cael manylion i fedru defnyddio'r system. Mae adran o fewn y system yn cynnig arweiniad ar sut i gwblhau'r gwahanol ffurflenni ond os oes angen cymorth pellach arnoch mae croeso i chi gysylltu ag S4C. Mae enwau a rhifau cyswllt i'w canfod ar ddiwedd y ddogfen hon.

### 3. Gwybodaeth sydd ei angen cyn neu wrth gyfleu'r tâp

Dylai ffurflen 405 gael ei chyfleu gyda'r tâp neu cyn i'r rhaglen gael ei darlledu os yw'n rhaglen fyw neu os yw'n cael ei gwe ddarlledu cyn y darllediad teledu (405a). Bydd y dyddiad penodol wedi ei nodi yn y cytundeb.

The screenshot shows a web browser window with the following content:

- Database name:** trunk10b
- Comisiynau:** A tree view showing folders like 'Cyfres', '126434 Test - Cyfres', 'Deunydd cyfleu', 'Actiadau', 'Cyflwyno', '126434/001', 'Deunydd cyfleu', '405 Ffurflen Gyfleu Rhaglen', '405b Crynodabau a Rhestradau', '408 Talfen Gerdoriaeth', '126434/002', '126434/003', '126434/004', '126434/005', '126434/006', 'Raglen unigol', 'Enwau defnyddiwr', and 'Archif'.
- Cwblhau'r deunydd cyfleu:** A table with columns for 'Anghenion cyflwyno', 'Disgrifiadau ar gyfer rhybudd', 'Gwybodaeth hysbysebu', and '407 Y Ffurflen Gyflunadau'.
- Mae un o'r meysydd angenheidiol heb ei lenwi:** A section with a table for 'Anghenion cyflwyno' and a text input field for 'Disgrifiadau ar gyfer rhybudd'.
- Gwybodaeth Hysbyseb:** A section with a table for 'Rhestr o'r oast / prof gyflwynwr', 'Cyfeiriad masnachol', and 'Disgrifiad o'r oylfa yn union cyn ac yn dilyn tonadau a ail effeithio ar teoli hysbysebion'.
- Buttons:** A 'Cwblhau' button is visible at the bottom right of the form.

Mae'r ffurflen hon yn allweddol o ran gweinyddiaeth S4C, gan ei bod yn cynnwys y gwahanol ddarnau o wybodaeth sydd eu hangen ar nifer o Gyfarwyddiaethau S4C i'w galluogi i gydymffurfio â'u hamrywiol ofynion statudol.

Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth sylfaenol am y rhaglen (rhif, teitl, fformat y tâp ayyb) mae'r wybodaeth yn ffurflen 405 o gymorth i S4C yn y modd canlynol:

- Cyfranwyr, Artistiaid a Gwybodaeth Hysbysebu  
Mae'r manylion am yr artistiaid/cyfranwyr i'r rhaglen yn galluogi y gall S4C sicrhau nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw hysbysebion o amgylch y rhaglen gan fod hyn yn groes i ganllawiau.

The screenshot shows a web browser window displaying a search interface for S4C. The browser's address bar shows the URL <http://pac2test.s4c.cymru/>. The page title is "BBC Radio 2 - Paul O'Grady, Wit...". The browser's address bar also shows "PAC 2000" and "pac". The browser's address bar also shows "Document Retrieval - RMwe...", "PRS for Music login page (2)", "Google (2)", "Getty Images", "pac", "Search our database", "Home - Dropbox", "S4C", "RMhost", "BBC Player", and "Bank Accounts, Savings, Lo...". The browser's address bar also shows "Page", "Safety", and "Tools".

The page content includes a search form titled "Gwybodaeth Hysbysebu". The form has the following fields:

- Rhestr o'r cast / prif gyflwynwyr\_?** (Text input field)
- Artistiaid/Cyfranwyr:** (Section header)
- Enw cyntaf** (Text input field)
- Cyfenw** (Text input field)
- Gwalth neu rŏi** (Text input field)
- Cymeriad** (Text input field)
- Cwblhewch yr wybodaeth yn Saesneg neu'n Ddwyieithog** (Text input field)
- Cyfeiriad masnachol\_?** (Text input field)
- Disgrifiad o'r olygfa yn union cyn ac yn dilyn toriadau a all effeithio ar leoli hysbysebion\_?** (Text input field)

The form also includes a "Arbed" button and a help icon (?). The S4/C logo is visible in the top right corner. The browser's status bar shows "Links" and "12:23".






#### 4. Gwybodaeth am y rhaglen i'w gyfleu yn fuan ar ôl y tâp

Er mwyn galluogi S4C i wneud y taliadau perthnasol i ail ddarlledu'r rhaglen ayyb mae angen darparu gwybodaeth fanylach am y cynnwys unwaith bod y tâp wedi ei gyfleu. Mi fydd dyddiad cyfleu'r wybodaeth hon hefyd wedi ei nodi yn y cytundeb.

Yr wybodaeth sydd angen ei gyfleu drwy'r system PAC yw

#### Manylion Cyfranwyr



Dylid nodi manylion unrhyw un sydd yn ymddangos yn y rhaglen yn yr adran hon. Mae'r wybodaeth yn cael ei gadw ar system BSM S4C ac mae'n ddefnyddiol wrth ymchwilio i gynnwys a chyfranwyr sydd wedi ymddangos mewn rhaglenni dros y blynyddoedd.

Yr unig fanylion na ddylid eu cynnwys yw manylion unrhyw un sydd wedi derbyn cytundeb sy'n nodi y bydd ffi bellach i'w dalu os yw'r rhaglen yn cael ei hail ddarlledu. Dylid cynnwys manylion yr unigolion hyn yn y ffurflen ar gyfer Artistiaid (gweler isod).



## Manylion Artistiaid

The screenshot shows a web browser window displaying the S4/C website. The page title is "Artistiaid" and the database name is "trunkdb". The left sidebar shows a tree view of the website structure, including "Cyfres", "126434 Test - Cyfres", "Deunydd cyfnew", "Artistiaid", "Cofrestru", "126434/001", "Deunydd cyfnew", "408 Tafflen Sylweddau Bhaalen", "Anabwngion cyflwyno", "Disgrifiadau ar ystaf rhybudd", "Gwybodaeth hysbysu", "408 Cymodolbau a Rhestradau", "408 Tafflen Gerddoriaeth", "126434/002", "126434/003", "126434/004", "126434/005", "126434/006", "Rheglu unigol", "Enwau defnyddiwr", and "Archif".

The main content area is titled "Artistiaid" and "cnytundeb Undebol". It features a search bar with the value "ABI1234567" and a "Gwraith neu rŕi" button. Below the search bar is a form titled "Ychwanegu artist" with the following fields:

- Rhif Yswiriant Cenedlaethol yr artist:
- NEU:
- Dyddiad geni (os o dan 16):

There are "Gwritw" and "Cwblhau" buttons at the bottom of the form. The "Cwblhau" button has a small "2" next to it. The browser's address bar shows the URL: "http://pactest.s4c.cymru/pac.exe?action=object\_artist&object\_id=527528819&object\_type=7550&id\_dol\_type\_id=13953567&priority=0&mode=outstanding&language\_id=1195".

Noder y dylech gynnwys unrhyw wybodaeth am ffioedd a dalwyd am ddefnydd o glip(iau) o fewn y rhaglen os talwyd ffi i artist, awdur neu gerddor ar sail cytundeb undebol (Equity, WGGB neu Undeb y Cerddorion).

Bydd S4C yn seilio unrhyw dâl ail ddarledu ar yr wybodaeth yn yr adran hon. Yn yr un modd â'r wybodaeth yn 'Manylion Cyfranwyr' mae'n ddefnyddiol iawn hefyd os oes angen canfod gwybodaeth am gynnwys rhaglenni ymhen amser.

## Taflen Gerddoriaeth (408)

Mae gofyn i S4C adrodd yn wythnosol i'r cymdeithasau casglu ar y defnydd o gerddoriaeth yn rhaglenni S4C. Yr wybodaeth yn y daflen hon sy'n cael ei wirio a'i anfon ymlaen at gymdeithasau fel PRS for Music a PPL.

The screenshot shows a web browser window displaying the S4C PAC system. On the left is a tree view of folders under 'Comisiynau', including 'Cyfres' and '126434/001'. The main area contains a form titled 'Manylion Taflen Gerddoriaeth' with fields for 'Tafel y Gwaith', 'Defnydd y Gerdoriaeth', 'Cardoriaeth gomian', 'Label', 'Rhif ISRC', 'Rhif ISWC', 'Categori', 'Ffynionall', 'Wediol', 'Rhif catalog', and 'Rhif trac'. Below this is a section for 'Manylion Cyfranwyr' with fields for 'Enw', 'Cyfnew', 'Cwmni/Grup', 'Rôl', and 'Cyfansoddiwr'. At the bottom is a 'Cod amser' section with 'Cod amser /mewn' and 'Cod amser /stat' fields. The interface includes navigation buttons like 'Ychwanegu newydd', 'Golygu', 'Dileu', 'Canslo', 'Arbed', and 'Cwblhau'. The S4C logo is visible in the top right corner.

## Ffurflen Deunydd Trydydd Parti

Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych wedi defnyddio deunydd sydd eisoes yn bodoli ac yn berchen i drydydd parti. Gall hyn fod yn lluniau llongydd, darnau o raglenni, archif, neu unrhyw fath o ddeunydd arall. Bydd S4C yn defnyddio'r wybodaeth i ail drwyddedu'r deunydd ar gyfer ail ddarlledu unwaith bo cyfnod y drwydded wreiddiol gyda'r perchennog hawlfraint wedi dirwyn i ben.

Nid yw'n bosib llenwi'r ffurflen hon ar y system PAC ar hyn o bryd. Gellir cael copi dogfen Word ar wefan cynhyrchu S4C yn yr adran Ffurflenni. Anfonwch y ffurflen wedi ei chwblhau os gwelwch yn dda at y cyfeiriad e-bost canlynol [pac\\_b@s4c.cymru](mailto:pac_b@s4c.cymru).

## 5. Cyfleu Dogfennau ategol

Er mwyn hwyluso'r broses o ail glirio deunydd ar gyfer ail ddarllediadau ac i sicrhau bod y taliadau cywir yn cael eu gwneud gofynnwn i gwmnïau anfon copiâu o'r cytundebau neu ddogfennau sy'n cadarnhau'r manylion sydd wedi eu darparu yn y PAC. Mae'r dyddiad cyfleu ar gyfer y dogfennau ategol hyn wedi ei nodi yn y cytundeb ar gyfer y rhaglen.

Gofynnir felly i chi ddarparu copi o unrhyw gytundeb lle y bydd angen talu ffioedd pellach. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i

- Cytundebau artistiaid
- Cytundebau awduron
- Cytundebau cyfansoddwyr
- Cytundebau cerddorion
- Copïau o ffurflenni tâl unigolion sydd wedi derbyn tâl clip/ecstract o dan gytundeb undebol (neu ddogfen sy'n cadarnhau manylion cyswllt yr unigolyn)
- Cytundebau deunydd trydydd parti
- Trwyddedau cerddoriaeth lle **nad** yw'r gerddoriaeth wedi ei glirio drwy drwydded IPC yr MCPS

Mae'r dogfennau hyn yn cael eu cyfleu ar wahân i'r ffurflenni electroneg gan eu bod yn gopïau papur fel arfer. Gellir anfon copïau at S4C yn y ffyrdd canlynol:-

Drwy'r post at Adran Materion Busnes S4C  
 Fel ffeil pdf ar e-bost at [pac\\_b@s4c.cymru](mailto:pac_b@s4c.cymru)  
 Trwy 'Dropbox' neu wasanaeth tebyg.

I osgoi amheuaeth **NI** fydd angen cyfleu copïau o'r canlynol

- Cytundebau cyfranwyr lle nad oes unrhyw ffi ail ddarlledu neu ddefnydd pellach yn ddyledus.
- Copïau o drwyddedau MCPS

## 6. Cyfleu yn hwyr

Mae Telerau Cyffredinol trwyddedau rhaglenni yn nodi pa gamau y gall S4C eu cymryd os yw rhaglen yn cael ei chyfleu'n hwyr. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i

- derfynu cytundeb ac i hawlio unrhyw ran o'r ffi drwydded sydd wedi ei lif ariannu cyn y dyddiad terfynu yn ôl os yw rhaglen yn cael ei chyfleu'n hwyr heb gytundeb ysgrifenedig S4C
- hawlio costau lle bo gofyn i'r cwmnïau ail gyfleu deunydd yn dilyn cyfleu rhaglen nad yw'n cydymffurfio y tro cyntaf
- ddidynnu costau rhesymol oddi ar unrhyw arian sy'n daladwy i'r cwmni neu ddanfon anfoneb i'r cwmni am y costau lle bo gwaith papur yn cael ei gyfleu yn hwyr.

Mae manylion unrhyw gostau y gall S4C eu codi os yw deunydd cyfleu yn hwyr i'w canfod yn y Telerau Cyffredinol cyfredol ar wefan gynhyrchu S4C

## 7. Cysylltiadau

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:

### Gwaith papur a Hawliau :

Gweinyddydd Hawliau  
 Caryl Evans

[Caryl.Evans@S4C.Cymru](mailto:Caryl.Evans@S4C.Cymru)

03305 880498

(Cyfranwyr, Artistiaid, Cerddoriaeth(408) a 3ydd Parti/Archif)

Arolygydd Sianel (Ar Awyr)  
Anwen Thomas  
[Anwen.Thomas@s4c.cymru](mailto:Anwen.Thomas@s4c.cymru)  
03305 880496  
(405 a 405b – Ffurflen Gyfleu)

**Technegol:**

Prif Swyddog Technegol  
Steve Cowin  
[steve.cowin@s4c.cymru](mailto:steve.cowin@s4c.cymru)  
02920 741201

Arolygydd Sianel (Ar Awyr)  
Anwen Thomas  
[Anwen.Thomas@s4c.cymru](mailto:Anwen.Thomas@s4c.cymru)  
03305 880496

Pennaeth Gwasanaethau Darlledu  
Jim Hennefer  
[jim.hennefer@s4c.cymru](mailto:jim.hennefer@s4c.cymru)  
03305 880526

Pennaeth Rheoli Cynnwys  
Jen Pappas  
[jen.pappas@s4c.cymru](mailto:jen.pappas@s4c.cymru)  
03305 880486

**Hysbysebion:**

Anwen Thomas  
[Anwen.Thomas@s4c.cymru](mailto:Anwen.Thomas@s4c.cymru)  
03305 880496

**Y Wasg:**

Swyddog y Wasg  
Lowri Jones  
[Lowri.Jones@s4c.cymru](mailto:Lowri.Jones@s4c.cymru)  
03305 880538

(405b - Crynodebau a Rhestriadau)